Gingerbread*

# Etholiad Senedd Cymru 2026

## Pecyn ar gyfer Rhieni Sengl



# Croeso!

Helo a chroeso i becyn Etholiad Senedd Cymru 2026!

Mae'r pecyn hwn wedi'i gynllunio i gefnogi rhieni sengl i gymryd rhan yn Etholiad Cymru 2026 a chodi ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu teuluoedd rhiant sengl, er mwyn i chi gael pleidleisio, dweud eich dweud, a sicrhau bod lleisiau rhieni sengl yn cael eu clywed.

## Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir a pham mae'r etholiad hwn yn un pwysig.
- Crynodeb o'n galwadau polisi yn Gingerbread.
- Sut i gymryd rhan.

---

## Gwybodaeth am yr Etholiad

Ar ddydd Iau, 7fed o Fai, bydd pleidleiswyr yn mynd i'r gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.

I Gymru, mae hwn yn etholiad hanesyddol, gyda newidiadau i'r system etholiadol ac o bosib, newid i wleidyddiaeth Cymru.

Mae'n gyfle hollbwysig i leisio eich barn a phleidleisio dros gynrychiolwyr a fydd yn gwneud penderfyniadau ar faterion datganoledig fel gofal plant, addysg, iechyd a thrafnidiaeth.

**Eleni, bydd yr etholiad hwn yn edrych yn wahanol.**

Ar draws Cymru, am y tro cyntaf, bydd pleidleiswyr yn dewis plaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol yn hytrach nag ymgeiswyr etholaeth unigol. Enw'r system newydd yw 'system rhestr gyfrannol gaeedig'.

Bydd seddi yn y Senedd yn cael eu dyrannu ar sail cyfran pob plaid o'r bleidlais ym mhob rhanbarth, system sydd eisoes yn cael ei defnyddio'n eang ar draws Ewrop.

Mae'r map etholiadol hefyd yn cael ei ail-lunio. Bydd Cymru nawr yn cael ei rhannu'n 16 etholaeth fwy, pob un yn ethol 6 Aelod i'r Senedd. Bydd cyfanswm nifer yr Aelodau yn cynyddu o 60 i 96, gan olygu bod mwy o gynrychiolwyr ar gyfer cymunedau a rhanbarthau Cymru.

Mae'r system newydd wedi'i chynllunio i wneud cynrychiolaeth yn decach ac i adlewyrchu'n fwy cywir sut mae pobl yn pleidleisio ar draws Cymru.

# Pam mae'r Etholiad hwn yn bwysig i rieni sengl

Mae'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y Senedd yn effeithio ar lawer o agweddau ar fywyd rhieni sengl a'u plant, gan gynnwys gofal plant, ysgolion, gwasanaethau iechyd, tai a thrafnidiaeth.

Dyna pam mae'n bwysig bod rhieni sengl yn defnyddio eu llais yn yr etholiad hwn.

## Polisi ac Ymgyrchu yn Gingerbread

Mae rhieni sengl yn parhau i wynebu heriau bob dydd — rhwystrau i waith, gofal plant annigonol, a system fudd-daliadau sy'n gallu ei gwneud hi'n anodd cydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofal.

Yn Gingerbread, rydym yn ymgyrchu i newid hyn. Rydym yn herio'r anghydraddoldebau a'r anghyfiawnderau y mae rhieni sengl yn eu wynebu bob dydd, ac yn gweithio i herio'r stigma a'r canfyddiadau negyddol ynghylch bod yn rhiant sengl.

**Mae ein blaenoriaethau polisi yn cynnwys:**

- Diwygio'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant (CMS)
- Sicrhau gwaith hyblyg
- Sicrhau bod gofal plant yn fforddiadwy ac yn gweithio i deuluoedd
- Mynd i'r afael â thlodi a gwella cymorth lles
- Sicrhau bod pob polisi yn adlewyrchu anghenion rhieni sengl

## Beth mae hyn yn ei olygu i chi fel rhiant sengl

Mae gan y Senedd ddylanwad dros feysydd datganoledig allweddol, fel gofal plant ac addysg. Mae hyn yn golygu y bydd y bobl a etholir yn helpu i lunio'r polisïau sy'n effeithio ar deuluoedd rhiant sengl ar draws Cymru.

# Pleidleisio fel rhiant sengl

Fel rhiant sengl, gall pleidleisio weithiau deimlo'n heriol wrth gydbwyso gofal plant a chyfrifoldebau gwaith, ond mae ffyrdd i'w wneud yn haws:




- Gallwch bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio ar 7 Mai, neu pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy bleidlais.
- Gallwch bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio unrhyw bryd rhwng 7 y bore a 10 yr hwyr ar 7 Mai.
- Gallwch ddod â'ch plentyn gyda chi i'r orsaf bleidleisio ar 7 Mai.
- Mae pob llais yn bwysig ac mae pob pleidlais yn cyfrif – does dim rhaid i chi fod yn arbenigwr mewn gwleidyddiaeth!

# Helpwch ni i gryfhau lleisiau rhieni sengl

Nid pleidleisio yw'r unig ffordd o gymryd rhan yn yr etholiad hwn. Mae ffyrdd syml eraill y gallwch ddefnyddio'ch llais a helpu i godi ymwybyddiaeth o'r heriau y mae rhieni sengl yn eu wynebu.

## Sut i gymryd rhan:




- Cofrestru i bleidleisio erbyn 11:59 yr hwyr ar 20 Ebrill 2026.
- Penderfynwch nawr sut a phryd byddwch yn pleidleisio (yn yr orsaf ar 7 Mai, drwy'r post neu drwy ddirprwy).
- Pleidleisiwch ddydd Iau, 7 Mai!
- **Tynnwch lun tu allan i'ch gorsaf bleidleisio (gyda'ch plentyn, os hoffech chi) a rhannwch y llun gyda ni ar 7 Mai fel y gallwn ei bostio ar ein cyfryngau cymdeithasol ar ddiwrnod yr etholiad. Anfonwch eich llun drwy e-bost i campaign@gingerbread.org.uk gyda'ch caniatâd i rannu'r llun.**
- Dechreuwch sgwrs: siaradwch â rhieni sengl eraill, ffrindiau, teulu neu gydweithwyr am yr etholiad a pham ei fod yn bwysig i chi.
- Helpwch ni i gryfhau lleisiau rhieni sengl: ymunwch â restr e-bost ymgyrchoedd Gingerbread, gweithredwch a helpwch ni i godi ymwybyddiaeth o'r heriau y mae teuluoedd rhiant sengl yn eu wynebu.

**Gyda'n gilydd, mi allwn sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gwrando ac yn gwthio am newid i rieni sengl a'u plant.**

